

S4C yw'r gwasanaeth teledu a chynnwys ar-lein Cymraeg. Mae'n gartref i Stwnsh, Cyw, Pobol y Cwm, Rownd a Rownd a llawer o ffefrynnau eraill. Mae ein pencadlys yng Nghanolfan S4C yr Egin, yng Nghaerfyrddin ac mae gennym ni swyddfeydd yng Nghaerdydd ac yng Nghaernarfon hefyd.

Dyma gwis byr am S4C. Mae yna hefyd wybodaeth am y mathau o swyddi sydd yn S4C a'r cwmnïau sy'n gwneud eich hoff raglenni inni.

Ewch i wefan [S4C](#) i ddarganfod yr atebion i'r cwestiynau isod.

1

Pryd ddechreuodd S4C ddarlledu?

2

Pwy sydd ar Dîm Rheoli S4C? Beth yw eu henwau a'u swyddi?

3

Pa fath o raglenni ellir eu gweld ar S4C? Rhestrwch gymaint ag y gallwch.

4

Sut y gellir gwyllo S4C? Ar ba lwyfannau gwahanol?

5

Faint o'r gloch mae Newyddion S4C ar y teledu?

6

Pa raglen sydd ar S4C ar fore Sadwrn am 08.00?

7

Beth yw enw chwaraewr S4C ble gallwch chi wyllo'n fyw, ar alw neu bocs sets?

8

Ar wefan chwaraewr S4C, rhestrwch y gwahanol raglenni sydd yn dod o dan Sianel Cyw a Sianel Stwnsh.

9

Ar ba 'sianel' y gallwch ddod o hyd i'r rhaglen POTSH? Beth yw'r rhaglen yma?

Ewch i wefan [Stwnsh](#).

Beth yw enw'r gemau sydd ar wefan Stwnsh?

10

Ewch i wefan [Ysgol Cyw](#).

Beth yw enw'r apiau Cyw sydd ar gael?

11

Ar wefan Ysgol Cyw mae yna gerdd arbennig gan Bardd Plant Cymru ar gyfer S4C.

1. Beth yw enw'r gerdd ac enw'r Bardd?
2. Yn y gerdd, beth mae'r plant yn dysgu Nain i wneud?

12

# Gweithio i S4C ac yn y sector teledu.

S4C yw'r gwasanaeth teledu Cymraeg. Rydym yn darlledu dros 115 awr o raglenni bob wythnos ar y teledu, ar-lein a drwy'r chwaraewr S4C Clic.

Cwmnïau cynhyrchu annibynnol ar draws Cymru sy'n creu'r rhan fwyaf o raglenni i S4C, ac rydym yn cael o leiaf 10 awr o gynnwys yr wythnos gan y BBC hefyd gan gynnwys yr opera sebon boblogaidd Pobol y Cwm.

Er nad yw S4C yn gwneud rhaglenni ei hun, mae'n cyflogi tua 110 o bobl mewn amryw o swyddi gwahanol. Mae saith adran sydd yn cydweithio i gadw S4C ar yr awyr.

Cyfathrebu yw'r adran fwyaf o fewn S4C gyda dros 45 aelod o staff! Mae'r adran hyrwyddo yn gyfrifol am dynnu sylw gwylwyr am raglenni S4C ac am drefnu gweithgareddau fel stondin a sioeau S4C yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Mae'r adran ddigidol yn amrywiol iawn gyda rhai aelodau yn gyfrifol am gyfryngau cymdeithasol S4C – trydar, Facebook, Instagram – ac eraill yn gyfrifol am ddewis pa raglenni sy'n mynd ar S4C Clic fel bocs sets. O fewn yr adran Gyfathrebu, mae yna ochr greadigol iawn lle mae'n dylunwyr graffeg yn creu delweddau i gyd-fynd gyda rhaglenni sy'n amrywio o raglenni Cyw, i chwaraeon, i ddramâu.

Pan fydd rhaglenni yn cyrraedd S4C oddi wrth y cwmnïau cynhyrchu, mae gennym dîm o ddylunwyr promos – dyma'r bobl sydd yn creu clipiau fideo sy'n rhoi blas i chi o'r rhaglen ar S4C.

Y Comisiynwyr yn yr adran Gynnwys sy'n gyfrifol am benderfynu pa raglenni sy'n cyrraedd eich sgrîn deledu. Mae gan S4C Gomisiynwyr penodol ar gyfer y mathau gwahanol o raglenni, er enghraifft Sioned sy'n gyfrifol am raglenni plant a Rhodri

sy'n gyfrifol am gynnwys ar-lein, fel Hansh.

Nid yw pob adran o fewn S4C yn seiliedig ar ein rhaglenni a'n cynnwys. Mae gennym adran Gyllid sy'n gofalu am y pot arian mae S4C yn ei dderbyn wrth y Llywodraeth i'w wario ar raglenni, talu cwmnïau cynhyrchu, talu staff ac yn y blaen.

Hefyd, mae gennym adran Gyfreithiol gyda chyfreithwyr yn sicrhau bod S4C yn dilyn canllawiau a rheolau ar gyfer pob rhaglen, trefnu cytundebau i gwmnïau ac actorion ac i ofalu am ochr fasnachol S4C.

Felly mae yna lwyth o swyddi amrywiol o fewn S4C! Rydym ni'n cynnig prentisiaethau a chyfleoedd profiad gwaith i rai sydd dros 16.

# Ond beth am y diwydiant darlledu?

Er mwyn cael syniad o'r math o swyddi amrywiol sydd o fewn y sector, fe wnawn edrych ar un cynhyrchiad ar gyfer rhaglen deledu fel enghraifft.

Efallai mai'r swyddi mwyaf amlwg fyddai sgriptiwr/awdur, cynhyrchydd a'r cyfarwyddwr. Yr awdur sy'n datblygu syniad ar gyfer rhaglen teledu ac yn datblygu'r sgript ar gyfer yr actorion. Cynhyrchydd sydd wrth galon unrhyw gynhyrchiad, nhw sydd yn gyfrifol am bob penderfyniad sydd yn ymwneud â'r cynhyrchiad ac yn cydweithio yn agos iawn gyda'r cyfarwyddwr, sydd yn gyfrifol am droi'r sgript i mewn i rhywbeth gweledol ac am y weledigaeth greadigol.

Mae yna nifer o swyddi eraill sydd ddim mor amlwg, gan gynnwys rhedwr - swydd sydd yn allweddol i gefnogi unrhyw gynhyrchiad. Dyma'n aml swydd i rywun sydd newydd

ddechrau gweithio. Mae rhedwr yn gyfrifol am nifer o wahanol bethau er enghraifft gwneud a dosbarthu copïau o drefn y dydd a sgriptiau, cymryd archebion cinio a brecwast, gwneud gwaith swyddfa a mynd at wahanol gyflenwyr am nwyddau.

Swydd arall yw rheolwr lleoliad sef y person sydd yn gyfrifol am ddarganfod lleoliadau ar gyfer ffilmio. Byddant yn gwneud hyn drwy drafod gyda'r tîm creadigol ac yna mynd ati i ymchwilio nifer o wahanol opsiynau cyn penderfynu ar yr union leoliad sydd fwyaf addas ar gyfer y cynhyrchiad. Mae'r adran gelf eto yn adran hollbwysig ac yn cynnwys amrywiaeth eang iawn o ran swydd. Yn yr adran yma, byddwch yn debygol o weld dylunydd gwisgoedd, sydd yn creu pob gwisg o fewn y cynhyrchiad!

Mae'r dylunydd colur a thrin gwallt hefyd yn bwysig iawn ac yn gyfrifol am baratoi yr actorion ar gyfer ffilmio. Mae'r addurnwr set

yn gweithio gyda lloriau, walïau, ceir a dodrefn, lle mae'r rheolwr props yn gyfrifol am y gwrthrychau bydd yr actorion yn defnyddio, er enghraifft cwpan. Mae'r adran dechnoleg yn chwarae rôl hanfodol hefyd, gyda swyddi fel person camera, person sain a pherson goleuo i gyd yn cyd-weithio gyda'r tîm creadigol tra'n ffilmio.

Ar ôl ffilmio golygfa, mae'r tâp yn mynd i'r golygydd sydd yn y pen draw yn rhoi'r rhaglen at ei gilydd ac yn gwneud unrhyw newidiadau. Yn yr adran yma mae yna berson sy'n gyfrifol am roi cerddoriaeth i gyd fynd gyda'r rhaglen ac i rhoi unrhyw is-deitlau arno hefyd.

Mae llawer o gyfleoedd gwaith yn y sector a llawer o swyddi da lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddefnyddiol iawn. Dim ots beth rydych chi'n ei hoffi yn yr ysgol, mae yna rôl mewn cynhyrchiad teledu sy'n cynnig y cyfle i wneud hynny!

Os ydych chi am ddarganfod mwy, dyma rai lincs defnyddiol i bartneriaid S4C:

[Screen Alliance Wales](#)  
[IntoFilm Cymru](#)  
[Canolfan Ffilm Cymru](#)  
[BAFTA Cymru](#)

[Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#)  
[Urdd Gobaith Cymru](#)  
[Bardd Plant Cymru](#)  
[RTS](#)